Archwilio Cymru
Audit Wales

# Diweddariad Cynnydd Cynllunio Rhyddhau Cleifion – Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4753A2025

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnwyd yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys


Adroddiad cryno

Ynglŷn â'r adroddiad hwn 4

Canfyddiadau allweddol 4

Argymhellion 5

Adroddiad manwl

Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol 8

Atodiadau

Atodiad 1 – dulliau archwilio 13

Atodiad 2 – crynodeb o'r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion 2017 15

Atodiad 3 – ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio 17

# Adroddiad cryno

## Ynglŷn â'r adroddiad hwn

1 Yn 2017, adolygodd yr Archwilydd Cyffredinol gynllunio rhyddhau ar draws yr holl Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Roedd y gwaith hwnnw'n canolbwyntio ar gynllunio strategol, trefniadau ar gyfer monitro ac adrodd ar gynllunio rhyddhau, a chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd i reoli cynllunio rhyddhau a sicrhau gwelliannau. Canfu ein hadroddiad yn 2017 ar ryddhau cleifion ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (y Bwrdd Iechyd) bod '**gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau datblygedig ar gyfer gwella cynllunio rhyddhau cleifion, ond mae'r perfformiad yn amrywio ac mae lle i wella'r polisi, y llwybrau a'r hyfforddiant ar gyfer rhyddhau cleifion'**. Gwnaethom sawl argymhelliad i'r Bwrdd Iechyd fynd i'r afael â nhw yn rhan o'r adroddiad hwnnw.

2 Yn wreiddiol, roedd yr Archwilydd Cyffredinol wedi cynnwys gwaith yn ei gynlluniau archwilio lleol yn 2021 i archwilio materion system gyfan sy'n effeithio ar wasanaethau gofal brys ac argyfwng, gan gynnwys rhyddhau cleifion o'r ysbyty. Arweiniodd pandemig COVID-19 at ohirio'r gwaith hwn a'i adfer yn rhan o'r ffrwd yn 2023-24. Mae ein gwaith wedi ceisio archwilio a oes gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn amserol. Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u nodi mewn adroddiad ar wahân i'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid awdurdodau lleol yn rhanbarth Gwent. Bydd yr adroddiad rhanbarthol ar gael ar ein gwefan unwaith y bydd y Bwrdd Iechyd priodol a phwyllgorau awdurdodau lleol wedi'i ystyried.

3 Fel rhan o'n hadolygiad rhanbarthol, rydym wedi ceisio asesu'r cynnydd a wnaed gan y Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion a nodir yn ein hadroddiad cynllunio ar gyfer rhyddhau yn 2017. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau mewn perthynas â chynnydd yn erbyn yr argymhellion hynny. Mae'r dull a fabwysiadwyd gennym i gyflawni ein gwaith wedi'i nodi yn **Atodiad 1**.

4 Rydym wedi ymgymryd â'r gwaith dilynol a'n hadolygiad rhanbarthol ehangach i helpu i gyflawni gofyniad statudol yr Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon bod gan gyrff y GIG ac awdurdodau lleol drefniadau priodol i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth iddynt ddefnyddio adnoddau, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus Cymru 2004. Yn ogystal, i gefnogi ein gwaith blaenorol ar gynllunio rhyddhau, cynhyrchwyd Beth yw'r oedi? Rhyddhau cleifion yng Nghymru sy'n nodi materion pwysig y dylai aelodau'r bwrdd gael eu gweld wrth geisio sicrwydd bod cleifion yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty mewn ffyrdd diogel ac amserol. Mae llawer o'r materion a nodwyd yn dal i fod yn berthnasol a dylid eu hystyried ochr yn ochr â chanfyddiadau'r adroddiad hwn.

## Canfyddiadau allweddol

5 Dangosodd data o fis Chwefror 2024, ar draws prif safleoedd ysbytai'r Bwrdd Iechyd, fod 240 o gleifion wedi'u rhyddhau ar ôl oedi o dros 48 awr. Roedd tua

17% o'r achosion o oedi hyn yn ymwneud â materion cynllunio rhyddhau o fewn y Bwrdd Iechyd, gan gynnwys cwblhau asesiadau clinigol.

6 Gwnaeth ein hadroddiad yn 2017 bedwar argymhelliad a oedd yn nodi saith cam gweithredu penodol ar gyfer y Bwrdd Iechyd. Gan nodi bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn yr argymhellion hyn, canfu ein gwaith dilynol:

- ni wnaed cynnydd yn erbyn un cam gweithredu;
- mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo yn erbyn pedwar o'r camau gweithredu; ac
- mae dau o'r camau gweithredu wedi eu gweithredu.

7 Yn benodol, gwelsom:

- fod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd o ran datblygu cyfarpar ategol ar gyfer rhyddhau, ond nid yw'r rhain wedi cael eu datblygu gyda phartneriaid ac mae angen gwella'r broses o gyfathrebu a monitro'r dulliau;
- bod canllawiau eglur yn nodi pryd y dylid defnyddio trafnidiaeth cleifion ond ceir diffyg ymwybyddiaeth o'r polisi archebu trafnidiaeth ac mae cyfathrebu amseroedd aros a ragwelir yn parhau i fod yn ddibynnol ar drefniadau lleol;
- bod y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella ei hyfforddiant cynefino o ran rhyddhau ond mae angen iddo fynd ymhellach i wella hyfforddiant diweddaru ac ymwreiddio hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid eraill; ac
- nad oes unrhyw fynediad i staff iechyd at wybodaeth gyfredol am amseroedd aros ar gyfer asesiadau anghenion neu wasanaethau i gychwyn, er bod enghreifftiau o weithio integredig cadarnhaol sy'n darparu gwybodaeth ar sail achosion unigol.

8 Mae'r adrannau canlynol o'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau dilynol yn fanylach ac mae **Atodiad 2** yn crynhoi ein hasesiad o gynnydd yn erbyn pob un o'r camau a nodwyd yn ein hadroddiad ar gyfer 2017.

# Argymhellion

9 Mae ein gwaith dilynol a'n hadroddiad rhanbarthol ehangach ar lif cleifion wedi nodi rhai argymhellion newydd ar gynllunio rhyddhau ar gyfer y Bwrdd Iechyd a, lle bo'n berthnasol, ei bartneriaid awdurdod lleol. Mae'r rhain wedi disodli'r argymhellion sy'n weddill o'n gwaith yn 2017 a ddangosir yn **Atodiad 2**.

10 Nodir argymhellion sy'n deillio'n benodol o'r gwaith dilynol hwn yn **Arddangosyn 1**. Mae ymateb y Bwrdd Iechyd i'r argymhellion diwygiedig hyn yn cael ei gofnodi yn **Atodiad 3**. Mae argymhellion sy'n codi drwy ein hadroddiad rhanbarthol ehangach ar lif cleifion sy'n berthnasol i, ac sydd wedi disodli, argymhellion ein gwaith yn 2017 wedi'u nodi yn **Arddangosyn 2**. Dylai'r Bwrdd Iechyd ymateb i'r argymhellion hyn fel rhan o'r gwaith o gwblhau'r adroddiad rhanbarthol.

**Arddangosyn 1: argymhellion newydd sy'n deillio o'r gwaith dilynol hwn**

| Argymhellion |
| --- |
| **Llwybrau rhyddhau**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dulliau'r dyfodol ac wedi'u diweddaru o gefnogi llwybrau rhyddhau yn cael eu datblygu gyda phartneriaid (pan fo'n berthnasol), yn cael eu cyfathrebu i'r staff ac yn cael eu harddangos yn amlwg ar wardiau. |
| **Trafnidiaeth cleifion**<br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau ar gyfer rheoli trafnidiaeth cleifion drwy:<br>2.1. sicrhau bod gan staff fynediad rhwydd at bolisïau a gwybodaeth trafnidiaeth perthnasol a sicrhau bod eu defnydd yn cael ei fonitro i sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd; a<br>2.2. rhoi dull ffurfiol ar waith i fonitro amseroedd aros ar gyfer trafnidiaeth cleifion fel y gellir tynnu sylw at unrhyw themâu a mynd i'r afael â heriau. |
| **Amseroedd aros i wasanaethau gychwyn**<br>A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i bartneriaid awdurdod lleol i nodi ffyrdd o ddarparu gwybodaeth gyfredol i staff am amseroedd aros am asesiadau anghenion ar gyfer gwasanaethau cymunedol a'r amser rhagarweiniol i'r gwasanaethau hynny gychwyn. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

**Arddangosyn 2: argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad rhanbarthol ar gynllunio rhyddhau yn lle'r argymhellion blaenorol yn 2017**

| Argymhellion |
| --- |
| **Gwella hyfforddiant a chyfarwyddyd**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol ymwreiddio prosesau i gyfathrebu canllawiau cynllunio rhyddhau i'r holl staff iechyd a gwasanaethau cymdeithasol perthnasol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ar sail dros dro, |

| Argymhellion | |
| --- | --- |
| | wedi'u hategu gan raglen barhaus o hyfforddiant diweddaru a hyfforddiant cynefino i staff newydd. Dylid gwneud hyn ar y cyd pan fo'n bosibl. |
| **Gwella ansawdd a rhannu gwybodaeth** | |
| A8 | Dylai'r Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol gyflwyno ffyrdd o rannu gwybodaeth cleifion yn fwy effeithiol, gan gynnwys cyfleoedd i gynnig mynediad ehangach at systemau sefydliadol ac atebion TG ar y cyd yn y pen draw. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Adroddiad manwl

## Gweithredu argymhellion archwilio blaenorol

11 Gwnaethom ystyried cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth weithredu ein hargymhellion archwilio yn 2017. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y canlynol:

- llwybrau rhyddhau (Argymhelliad 1 2017);
- lolfa ryddhau (Argymhellion 2a a b 2017);
- hyfforddiant cynllunio rhyddhau (Argymhellion 3a, b a c 2017); a
- gwybodaeth am wasanaethau cymunedol (Argymhelliad 4 2017).

12 Ar y cyfan, gwelsom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd i ddatblygu cyfarpar ategol ar gyfer rhyddhau a phroses eglur ar gyfer trefnu trafnidiaeth cleifion. Ond dylai hyfforddiant rhyddhau fod yn fwy effeithiol a rheolaidd, ac mae angen datblygu rhannu data integredig i sicrhau bod gan staff yr wybodaeth berthnasol sydd ei hangen arnynt ar gyfer rhyddhau effeithlon.**

### Llwybrau rhyddhau

13 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- datblygu cyfarpar ategol ar gyfer y prif lwybrau rhyddhau ar ffurf briodol, er enghraifft, siart lif neu dabl. Dylid bod wedi datblygu'r dogfennau hyn ar y cyd â sefydliadau partner a'u hatodi i'r polisi rhyddhau diwygiedig, a'u harddangos yn amlwg (Argymhelliad 1 2017).

14 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd i ddatblygu cyfarpar ategol ar gyfer rhyddhau, ond nad yw hwn wedi cael ei ddatblygu gyda phartneriaid a bod angen gwella'r broses o gyfathrebu a monitro'r cyfarpar.**

15 Mae amrywiaeth o gyfarpar ar waith i gefnogi proses ryddhau effeithiol ond ni ddatblygwyd hwn gyda phartneriaid. Mae polisi rhyddhau wedi'i ddiweddaru y Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2023 ar gyfer pob gweithiwr iechyd proffesiynol a staff sector gwirfoddol a thrydydd sector sy'n ymwneud â rhyddhau cleifion mewn lleoliad clinigol, ac felly byddai'n elwa o gael ei lunio ar y cyd. Mae hwn yn gyfle a fethwyd i ddatblygu dulliau integredig o ryddhau ar draws partneriaid a allai wneud y proses yn fwy effeithlon a gwella ymwybyddiaeth a chyfathrebu'r polisi. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i safleoedd sydd â staff gofal cymdeithasol wedi'u hymgorffori mewn timau iechyd fel tîm gofal cymdeithasol Cyngor Caerffili ac ar y Ward Eiddilwch Integredig.

16 Mae'r polisi rhyddhau yn darparu cysylltiadau i sawl math o gyfarpar defnyddiol, fel y polisi dewis llety neu'r polisi ar gyfer rheoli cleifion sy'n amharod i gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Yn ddefnyddiol, mae'r polisi rhyddhau hefyd yn atodi'r llwybrau D2RA[1] sy'n darparu'r daith y dylai cleifion ei chyflawni ar gyfer pob cam. Fodd bynnag, nid yw'n eglur sut mae'r polisi rhyddhau yn cael ei gyfathrebu i staff gweithredu i alluogi'r effaith a fwriedir ganddo.

17 Datblygwyd Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer y ward 'Tuag Adref'[2] ym mis Tachwedd 2022, sy'n amlinellu diben y ward o ran hybu annibyniaeth i gleifion sydd wedi'u hoptimeiddio'n feddygol. Caiff llythyrau rhyddhau eu hatodi i'r Weithdrefn Weithredu Safonol ynghyd â siart lif ar gyfer uwchgyfeiriad asesu o glaf sy'n gwaethygu. Er bod hwn yn gyfarpar a dull defnyddiol i hybu'r broses o ryddhau cleifion sydd wedi'u hoptimeiddio'n feddygol, nid yw'n eglur pwy sy'n gyfrifol am gyfathrebu hyn na sut mae wedi'i ymwreiddio yn hyfforddiant a chyfnod cynefino staff. Efallai yr hoffai datblygiad yr 'Uned Barod i Fynd'[3] ystyried yr heriau hyn.

18 Ni welsom unrhyw dystiolaeth o'r Bwrdd Iechyd yn asesu cydymffurfiad â'i bolisi rhyddhau. Er bod y polisi yn datgan y byddai rhaglen flynyddol o ddysgu yn cael ei hadrodd yn flynyddol i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau Cleifion, ni welsom unrhyw dystiolaeth ar adeg ein hadolygiad bod hyn wedi digwydd.

19 Mae'n rhaid cael mynediad at holl ddogfennau'r Bwrdd Iechyd yn ymwneud â rhyddhau ar-lein i atal hen fersiynau rhag cael eu defnyddio. Er bod hyn yn ddealladwy, nid yw bob amser o gymorth i staff ward prysur, ac mae'n ei gwneud yn anodd i'r dogfennau hyn gael eu harddangos yn amlwg. Fodd bynnag, mae nifer o'r mathau hyn o gyfarpar ategol wedi'u cynnwys yn y llawlyfrau staff ar gyfer pob un o'r safleoedd ysbyty.

20 Rydym o'r farn felly bod **angen parhau i weithredu i fynd i'r afael ag argymhelliad 1 (wedi'i ddisodli ag Argymhelliad 1 2024).**

## Lolfa ryddhau

21 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- datblygu canllawiau clir i nyrsys ar archebu trafnidiaeth (Argymhelliad 2a 2017); ac

[1] Bwriedir i Rhyddhau i Wella ac yna Asesu (D2RA) gefnogi pobl i wella gartref cyn cael eu hasesu ar gyfer unrhyw angen parhaus, gan leihau drwy hynny hyd eu harhosiad yn yr ysbyty.

[2] Diben y Ward dan Arweiniad Nyrsys yw darparu amgylchedd i gleifion sydd wedi'u hoptimeiddio'n feddygol i gael eu rhyddhau ond sydd dal i fod angen cymorth ac ymyriadau nyrsio. Mae'r ward yn hybu athroniaeth o annibyniaeth tra'n gwella profiad cleifion trwy gymorth wedi'i symleiddio o fewn Ysbyty Cyffredinol Lleol Well.

[3] Mae'r uned hon yn Ysbyty Brenhinol Gwent wedi'i chyd-leoli ochr yn ochr â'r Lolfa Ryddhau i helpu i baratoi cleifion i gael eu rhyddhau gan gefnogi anghenion llesiant corfforol, seicolegol a chymdeithasol.

- datblygu trefniadau gwell i gyfathrebu â'r gwasanaeth ambiwlans ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys, fel bo modd i nyrsys roi gwybod i gleifion pa mor hir y maent yn debygol o orfod aros (Argymhelliad 2b 2017).

22 Canfuom **fod canllawiau eglur yn nodi pryd y dylid defnyddio trafnidiaeth cleifion ond bod diffyg ymwybyddiaeth o'r polisi archebu trafnidiaeth ac mae cyfathrebu amseroedd aros a ragwelir yn dal i fod yn ddibynnol ar drefniadau lleol.**

23 Mae canllawiau yn y polisi rhyddhau yn nodi'n eglur i staff y dylai cleifion gael eu hannog i drefnu eu trafnidiaeth eu hunain, ac y dylid defnyddio teulu, ffrindiau a sefydliadau gwirfoddol cyn dibynnu ar y Gwasanaeth Trafnidiaeth Cleifion a redir gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Atodwyd 'Canllaw i Rieni, Teuluoedd a Gofalwyr' cynllunio rhyddhau i'r prif bolisi rhyddhau hefyd. Mae hwn yn ail-bwysleisio mewn iaith hygyrch y dylai cleifion wneud eu trefniadau teithio eu hunain a bod trafnidiaeth ysbyty ar gael i'r rhai ag angen meddygol yn unig.

24 Mae'r polisi hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer achosion annisgwyl o ryddhau 'ar y dydd' ac yn cyfeirio darllenwyr at ddogfen mewn dolen ar wahân ar Bolisi Archebu Trafnidiaeth ar gyfer Rhyddhau a Throsglwyddo Cleifion. Fodd bynnag, mae ymwybyddiaeth staff o'r polisi hwn yn isel, ac nid yw'n hawdd cael gafael arno sy'n golygu bod ei effaith yn gyfyngedig, er bod y defnydd o lolfeydd rhyddhau a pha un a yw cleifion yn gymwys i gael trafnidiaeth cleifion wedi'u cynnwys yn y llawlyfr staff ar gyfer pob safle ysbyty. Rydym o'r farn felly bod **argymhelliad 2a wedi cael ei weithredu** ond bod angen gwaith pellach i godi ymwybyddiaeth staff **(argymhelliad 2.1 2024).**

25 Yn ystod ein hadolygiad o gynllunio ar gyfer rhyddhau yn 2017, mynegodd staff bryderon am arosiadau maith i gleifion yn y lolfeydd rhyddhau oherwydd oedi cyn cael trafnidiaeth cleifion a methu â gallu dweud wrth gleifion pa mor hir y byddant yn aros. Ers ein gwaith blaenorol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu Canolfan Lif sy'n cydgysylltu'r rhan fwyaf o drafnidiaeth cleifion o fewn safleoedd. Fodd bynnag, mae trafnidiaeth rhyddhau cleifion yn cael ei harchebu yn uniongyrchol o wardiau trwy rif ffôn penodol ac mae staff yn cyfathrebu'n barhaus â'r Gwasanaeth Trafnidiaeth Cleifion i gael yr wybodaeth ddiweddaraf, gan na roddir amseroedd casglu disgwyliedig wrth archebu. Gall y gwiriadau parhaus hyn gymryd llawer o amser, ac nid yw cleifion yn gwybod pa mor hir y bydd yn rhaid iddynt aros mewn lolfeydd rhyddhau cyn cael eu casglu. Er bod lolfeydd rhyddhau yn cael eu defnyddio, gall cleifion fod yn aros mewn gwahanol rannau o'r ysbyty yn aml, sy'n arwain at lawer o wahanol bwyntiau cyswllt. Er nad oedd unrhyw faterion uwchgyfeirio hysbys ar adeg ein gwaith, ni all y Bwrdd Iechyd fod yn sicr bod y dull hwn yn effeithiol os nad oes unrhyw ffordd ffurfiol o fesur a monitro'r amseroedd aros. Dylai'r Bwrdd Iechyd roi dull ar waith i ddeall a monitro amseroedd aros cleifion ar adeg eu rhyddhau. Bydd hyn yn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw themâu a heriau sy'n codi. Rydym o'r farn felly bod angen **gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 2b (wedi'i ddisodli gan argymhelliad 2.2 2024)**.

## Hyfforddiant ar gynllunio rhyddhau

26 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- cynnwys cynllunio rhyddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn ymwneud â chynllunio rhyddhau cleifion (Argymhelliad 3a 2017);
- cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd (Argymhelliad 3b 2017); ac
- er cysondeb, ystyried cynnig hyfforddiant i staff o sefydliadau partner, sy'n cymryd rhan yn y broses o gynllunio rhyddhau cleifion (Argymhelliad 3c 2017).

27 Canfuom fod **y Bwrdd Iechyd wedi cymryd camau i wella ei hyfforddiant cynefino o ran cynllunio rhyddhau ond mae angen iddo fynd ymhellach i wella hyfforddiant diweddaru ac ymwreiddio hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid eraill.**

28 I sicrhau rhyddhau didrafferth ar draws bob sector, mae angen i hyfforddiant rhyddhau yn ystod y cyfnod cynefino fod yn effeithiol ac yn gyson. Mae rhaglen gynefino gorfforaethol y Bwrdd Iechyd yn cynnwys y polisi rhyddhau, a darperir hyfforddiant ar gynllunio rhyddhau i bob nyrs sydd newydd gofrestru ynghyd ag archwiliadau cymhwysedd. Hefyd, mae'r holl nyrsys Band 4 yn cyflawni archwiliadau cymhwysedd o ran cynllunio rhyddhau. Darperir hyfforddiant ad-hoc lleol i ddechreuwyr newydd hefyd trwy ddull cyfeillio, a phan fo grwpiau mawr o ddechreuwyr newydd fel cynefino nyrsys tramor, mae sesiynau hyfforddiant grŵp yn cael eu cynnal. Rydym o'r farn felly bod **argymhelliad 3a wedi cael ei weithredu.**

29 Effeithiwyd rhaglen y Bwrdd Iechyd o hyfforddiant diweddaru ar gynllunio rhyddhau gan y pandemig ac mae angen gwneud gwaith pellach i sicrhau bod yr hyfforddiant hwn yn cael ei weithredu'n gyson ar draws pob safle ysbyty. Profir yr angen am hyfforddiant o'r fath gan anghysondebau mewn dulliau presennol o ryddhau ar draws safleoedd ysbyty a'r ffaith i ni glywed gwahanol safbwyntiau gan staff gweithredu o ran a yw hyfforddiant diweddaru yn cael ei gynnig. Rydym o'r farn felly bod **angen gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 3b (wedi'i ddisodli gan Argymhelliad Rhanbarthol 1 2024).**

30 Er i staff gweithredu hysbysu am gysylltiadau gweithio da ar draws iechyd a gofal cymdeithasol, ni chymerwyd unrhyw gamau yn erbyn yr argymhelliad blaenorol ynghylch cynnig hyfforddiant ar y cyd i staff ar draws iechyd a gofal cymdeithasol. Er gwaethaf y ffaith y gall problemau capasiti a nifer y cyrff statudol dan sylw wneud hyn yn anodd ei drefnu, ceir manteision i'w sicrhau o hyd o ran sicrhau bod canllawiau yn cael eu deall a'u mabwysiadu'n gyson, a bod y disgwyliadau rhwng partneriaid yn cael eu deall a'u rheoli. **Mae Argymhelliad 3c wedi cael ei ddisodli gan Argymhelliad Rhanbarthol 1 2024 felly.**

## Gwybodaeth am wasanaethau cymunedol

31 Gwnaethom ystyried a yw'r Bwrdd Iechyd wedi:

- Dylai'r Bwrdd Iechyd

- ystyried cynnwys gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesiadau anghenion ac i wasanaethau gychwyn o fewn yr wybodaeth ehangach y mae'n ei chasglu am y ddarpariaeth o wasanaethau cymunedol (Argymhelliad 4 2017).

32 Canfuom **yn nodweddiadol nad oes gan staff iechyd fynediad at wybodaeth gyfredol am amseroedd aros ar gyfer asesiadau o anghenion nac i wasanaethau cymunedol gychwyn, er bod enghreifftiau o weithio integredig cadarnhaol sy'n darparu gwybodaeth ar sail achosion unigol**.

33 Mae llawer o staff nad ydynt yn ymwybodol o'r amrywiaeth gyflawn o wasanaethau cymunedol sy'n bodoli a'r amseroedd aros cysylltiedig i'r gwasanaethau hynny gychwyn. Nodwyd hyn yn rhan o'n gwaith fel angen hyfforddi arwyddocaol. I fynd i'r afael â hyn, dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i bartneriaid awdurdod lleol i nodi ffyrdd o ddarparu gwybodaeth gyfresol i staff am amseroedd aros ar gyfer asesiadau o anghenion ar gyfer gwasanaethau cymunedol a'r amser rhagarweiniol i'r gwasanaethau hynny gychwyn.

34 Ar lefel weithredu, mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnal cyfarfodydd gweithredu amlddisgyblaeth rheolaidd i drafod rhyddhau cleifion. Mae hyn yn cynnwys rowndiau ward a chyfarfodydd hyd arhosiad â mewnbwn gan weithwyr cymdeithasol i helpu i ddeall yr arosiadau i wasanaethau gychwyn. Hefyd, gall cydgysylltwyr rhyddhau sydd wedi'u lleoli ar wardiau ddefnyddio systemau iechyd ac awdurdod lleol, ac felly hefyd y Tîm Eiddilwch Integredig. Mae'r rhain yn enghreifftiau pellach o rannu gwybodaeth integredig, er bod capasiti cydgysylltwyr rhyddhau yn gyfyngedig.

35 Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth dda am amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau cymunedol fel addasiadau i dai. Mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ddarpariaeth gwasanaeth trawsawdurdod a'r diffyg atebion TG cyffredin ar draws iechyd a llywodraeth leol i ddarparu gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesiad o anghenion ac i wasanaethau gychwyn. Yn absenoldeb systemau o'r fath, ceir dibyniaeth ar staff yn gwneud ymholiadau personol sy'n cymryd amser ar gyfer pob claf ar sail achosion unigol. Rydym o'r farn felly bod **angen gweithredu parhaus i fynd i'r afael ag argymhelliad 4 (wedi'i ddisodli gan Argymhelliad 3 2024).**

# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i gyflawni'r gwaith hwn. Roedd y dulliau yn rhan o'r dulliau archwilio a ddefnyddiwyd i gyflawni ein hadolygiad rhanbarthol ehangach.

**Arddangosyn 3: dulliau archwilio**

| Elfen o ddulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Dogfennau | Rydym wedi adolygu amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys:<br>• Papurau bwrdd a phwyllgor<br>• Diweddariadau ar y Rhaglen Chwe Nod a gofal brys ac<br>• argyfwng i bwyllgorau<br>• Cynlluniau gweithredol a strategol sy'n ymwneud â gofal<br>• brys ac argyfwng<br>• Gweithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer cynllunio rhyddhau<br>• Cofrestrau risg corfforaethol ac adroddiadau perfformiad<br>• Dogfennau gweithredu, fel profformâu a rhestrau gwirio, prosesau uwchgyfeirio, llawlyfrau a thaflenni staff a chanllawiau |
| Cyfweliadau | Fe wnaethom ni gyfweld â'r canlynol:<br>• Pennaeth Rhyddhau Cleifion<br>• Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau<br>• Rheolwr Cyffredinol Teulu a Therapïau<br>• Rheolwr Cyffredinol Gofal Brys<br>• Pennaeth Cynorthwyol Rhyddhau Cleifion<br>• Rheolwr Cyffredinol Meddyginiaeth<br>• Dirprwy Bennaeth Gweithrediadau<br>• Rheolwr Gweithrediadau Is-adrannol<br>• Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chymunedol ac Iechyd Meddwl<br>• Prif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Aneurin Bevan (Llais bellach) |

| Elfen o ddulliau archwilio | Disgrifiad |
|---|---|
| Arsylwadau | Gwnaethom arsylwi'r cyfarfod(ydd) canlynol:<br>• Cyfarfod llif traws-safle ar Teams<br>• Cyfarfod Llif (Tîm Amlddisgyblaeth Gwanwyn)<br>• Cyfarfod Llif (Canolfan Addysg Ysbyty Ystrad Fawr)<br>• Cyfarfod Gofal Brys Chwe Nod<br>• Cyfarfod Arweinyddiaeth ac Ymateb System<br><br>Gwnaethom arsylwi'r unigolyn/ion canlynol hefyd:<br>• Cydgysylltydd Rhyddhau yn Ysbyty Neville Hall |
| Dadansoddiad data | Gwnaethom ddadansoddi'r data cenedlaethol canlynol:<br>• Cyflwynwyd set ddata gwasanaethau cymdeithasol fisol i Lywodraeth Cymru<br>• Cyflwynwyd set ddata oedi cyn rhyddhau fisol i Weithrediaeth y GIG<br>• Data StatsCymru<br>• Dangosyddion gwasanaeth ambiwlans<br>Gwnaethom hefyd ddadansoddi data a ddarparwyd gan y Bwrdd Iechyd yn ymwneud â'r holl gleifion meddygaeth frys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw). |
| Adolygiad o nodiadau achos | Gwnaethom adolygu sampl o 29 nodyn achos yn ymwneud â chleifion meddygaeth frys a ryddhawyd ym mis Hydref 2022 gyda hyd arhosiad yn fwy na 21 diwrnod (ac eithrio'r rhai a fu farw). |
| Grwpiau Ffocws | Gwnaethom gynnal grwpiau ffocws gyda'r canlynol:<br>• Cydgysylltwyr Rhyddhau |
| Hunanasesiad | Gofynnom i'r Bwrdd Iechyd gwblhau a chyflwyno hunanasesiad, gan nodi ei farn ar gynnydd yn erbyn ein hargymhellion ar gyfer 2017. |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 2

## Crynodeb o’r cynnydd yn erbyn ein hargymhellion 2017

Mae **Arddangosyn 4** yn nodi’r argymhellion a wnaethom yn 2017 a’n crynodeb o gynnydd.

| Argymhellion | Cynnydd |
|---|---|
| **Llwybrau rhyddhau**<br>A1 Er bod llwybrau rhyddhau ar waith, nid oedd tystiolaeth o ddogfennau i gefnogi staff i'w gweithredu. Dylai'r Bwrdd Iechyd ddatblygu offer cefnogol ar ffurf briodol ar gyfer y prif lwybrau rhyddhau, er enghraifft siartiau llif neu dablau. Dylai'r dogfennau gael eu datblygu ar y cyd â sefydliadau partner, dylid eu hatodi i'r polisi rhyddhau diwygiedig a'u harddangos mewn lle amlwg. | **Parhaus** – gweler paragraffau 15-20 (wedi’i ddisodli ag Argymhelliad 1 2024). |
| **Lolfa ryddhau**<br>A2 Mynegodd staff ward bryderon ynglŷn â'r ffaith bod cleifion yn disgwyl am amser hir mewn lolfeydd rhyddhau, a hynny'n bennaf oherwydd problemau'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar gyfer cleifion nad ydynt yn achosion brys, a chan nad oedd y staff yn archebu'r math cywir o drafnidiaeth. Dylai'r Bwrdd Iechyd:<br>a) Ddatblygu canllawiau clir i nyrsys ar archebu trafnidiaeth.<br>b) Datblygu trefniadau gwell i gyfathrebu â'r gwasanaeth ambiwlans ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys, fel bo modd i nyrsys roi gwybod i gleifion pa mor hir y maent yn debygol o orfod aros. | **Gweithredwyd** – gweler paragraff 24<br>**Parhaus** – gweler paragraff 25 (wedi’i ddisodli ag Argymhelliad 2.2 2024) |

| Argymhellion | Cynnydd |
| --- | --- |
| **Hyfforddiant ar gynllunio rhyddhau cleifion**<br>A3 Gwelsom nad oedd rhaglenni ymsefydlu ar gyfer staff nyrsio, meddygol a therapi yn cynnwys hyfforddiant ar gynllunio rhyddhau cleifion. Dylai'r Bwrdd Iechyd: | |
| a) Gynnwys cynllunio rhyddhau cleifion yn rhan o raglenni ymsefydlu'r holl staff fydd yn ymwneud â chynllunio rhyddhau cleifion. | **Gweithredwyd** – gweler paragraff 28 |
| b) Cynnig hyfforddiant gloywi rheolaidd. | **Parhaus** – gweler paragraff 29 (wedi'i ddisodli ag Argymhelliad Rhanbarthol 1 2024) |
| c) Er cysondeb, ystyried cynnig hyfforddiant i staff o sefydliadau partner eraill, sy'n cymryd rhan yn y broses o gynllunio rhyddhau cleifion. | **Dim camau gweithredu** – gweler paragraff 30 (wedi'i ddisodli ag Argymhelliad Rhanbarthol 1 2024) |
| **Gwybodaeth am wasanaethau cymunedol**<br>A4 Gwelsom fod y Bwrdd Iechyd yn mynd ati'n rheolaidd i gasglu gwybodaeth am wasanaethau cymunedol; ond nid yw'r wybodaeth honno'n cynnwys amseroedd aros. Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried cynnwys gwybodaeth am amseroedd aros ar gyfer asesiadau anghenion ac i gychwyn gwasanaethau. | **Parhaus** – gweler paragraffau 33 i 35 (wedi'i ddisodli ag Argymhelliad Rhanbarthol 3 2024) |

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

# Atodiad 3

## Ymateb y rheolwyr i argymhellion archwilio

Mae **Arddangosyn 5** yn nodi ymateb y Bwrdd Iechyd i'n hargymhellion archwilio.

**Arddangosyn 5: ymateb y rheolwyr**

| **Argymhelliad** | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
| --- | --- | --- | --- |
| **Llwybrau rhyddhau**<br>A1 Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod dulliau'r dyfodol ac wedi'u diweddaru o gefnogi llwybrau rhyddhau yn cael eu datblygu gyda phartneriaid (pan fo'n berthnasol), yn cael eu cyfathrebu i'r staff ac yn cael eu harddangos yn amlwg ar wardiau. | Polisi:<br>• Bydd y Bwrdd Iechyd yn adolygu ei Bolisi Rhyddhau yng ngoleuni'r Polisi Cenedlaethol newydd a gyhoeddwyd ym mis Medi 2024.<br>• Bydd y Polisi yn cynnwys gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer Rhyddhau i sicrhau bod eglurder i staff.<br>• Bydd cynllun cyfathrebu i staff, partneriaid a rheolwyr yn cael ei gwblhau a bydd posteri ar gyfer wardiau yn cael eu datblygu sy'n cyflwyno'r gweithdrefnau gweithredu safonol yn syml. | Ionawr 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| **Argymhelliad** | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| | Llwybrau: | | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |
| | • Mae gan Clinical Workstation 2 (CWS2), sy'n cael ei gyflwyno ar draws y bwrdd iechyd ar hyn o bryd, y gallu i neilltuo'r llwybr cywir i bob claf: bydd hwn yn integreiddio â Qlik i sicrhau bod llwybrau cleifion yn cael eu nodi'n fyw yn ddyddiol. | Tachwedd 2024 | |
| | • 'Rhestr Gymhleth' i gael ei datblygu'n CWS2 ag adborth data dyddiol, staff awdurdod iechyd ac iechyd i gael mynediad at y system ddigidol. | Mawrth 2024 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Cyfarwyddwr Digidol |
| | • Daethpwyd i gytundeb i ddatblygu ap o'r enw 'Ask Annie: bydd yr ap hwn yn cynnig mynediad at wybodaeth am Lwybrau a Gwasanaethau Rhyddhau Integredig. Mae'r ap hwn ar gamau cynnar ei ddatblygiad. | Ebrill 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Cyfarwyddwr Digidol |
| | • Bwriedir cynnal cyfres o weithdai i ddatblygu un llwybr integredig ar gyfer Rhyddhau - nod hyn fydd lleihau cymhlethdod ac ailadrodd trwy greu pwyntiau mynediad unigol ar gyfer gwasanaethau rhyddhau a chyngor a chyfarwyddyd. Mae hyn yn dilyn darn llwyddiannus o waith ar integreiddio llwybrau drws ffrynt. | Ionawr 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |
| | • Mae prosiect ward optimaidd 'Perfect Ward' yn yr arfaeth a fydd yn sicrhau bod y prosesau, y capasiti a'r gallu mewn | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol |

| Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
| --- | --- | --- | --- |
| | amgylcheddau ward o'r maint cywir i optimeiddio llif a rhyddhau cleifion.<br>• Bydd archwiliad a gwerthusiad o'r gwelliannau, y cynlluniau a'r llwybrau Rhyddhau yn cael eu cynnal ar ôl gweithredu.<br>• Bydd taflen rhyddhau cleifion yn cael ei datblygu i atgyfnerthu'r sgwrs 'yr hyn sy'n bwysig' a chynllunio rhyddhau cleifion ar adeg eu derbyn.<br><br>Hyfforddiant:<br>• Mae'r Bwrdd Iechyd a'i bartneriaid wedi sicrhau cyllid ychwanegol i dreialu'r Hyfforddiant Cydbwyso Hawliau a Chyfrifoldebau – cynhaliwyd y cohort cyntaf ym mis Tachwedd 2024 ac yn dilyn gwerthusiad bydd yn cael ei ymwreiddio yn y rhaglen ryddhau.<br>• Bydd adolygiad pellach o'r hyfforddiant ar gyfer rhai sydd newydd gofrestru a hyfforddiant diweddaru ychwanegol yn cael eu cwmpasu yng nghyd-destun yr hyfforddiant uchod a datblygiad yr ap.<br>• Ymwreiddio'r Fframwaith Llif Ysbyty Optimaidd ar draws pob safle – Coch i Wyrdd, SAFER, D2RA, Datgyflyru | Mehefin 2025<br><br>Ebrill 2025<br><br>Mehefin 2025<br><br>Ebrill 2025<br><br>Ebrill 2025 | Nyrsio/Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Cyfarwyddwr Gweithlu a Datblygu Sefydliadol<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio<br><br>Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | Ymateb y rheolwyr<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | Dyddiad cwblhau<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | Swyddog cyfrifol (teitl) |
|---|---|---|---|
| **Trafnidiaeth cleifion**<br><br>A2 Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau trefniadau ar gyfer rheoli trafnidiaeth cleifion drwy:<br><br>2.1 sicrhau bod gan staff fynediad rhwydd at bolisïau a gwybodaeth trafnidiaeth perthnasol a sicrhau bod eu defnydd yn cael ei fonitro i sicrhau eu bod yn gweithredu fel y bwriadwyd; a<br><br>2.2 rhoi dull ffurfiol ar waith i fonitro amseroedd aros ar gyfer trafnidiaeth cleifion fel y gellir tynnu sylw at unrhyw themâu a mynd i'r afael â heriau. | Bydd y Bwrdd Iechyd yn:<br>• Adolygu canllawiau presennol ar archebu trafnidiaeth sydd ar y Fewnrwyd ac yn diweddaru yn ôl y gofyn.<br>• Datblygu cynllun cyfathrebu gyda Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd i ddosbarthu gwybodaeth ar draws y Bwrdd Iechyd.<br>• Cyflwyno canllawiau wedi'u diweddaru i ddefnyddwyr gwasanaeth.<br>• Trafod y potensial ar gyfer system adrodd fyw gyda Grŵp Gweithredu Cyflawni Cenedlaethol NEPTS a Chyd-bwyllgor Comisiynu.<br>• Defnyddio adroddiadau WAST presennol sydd ar gael i ddarparu diweddariadau misol ar amseroedd aros a themâu. Trefnu ar gyfer eitem agenda sefydlog yng nghyfarfod Grŵp Trafnidiaeth Haen 3.<br>• Lolfeydd Rhyddhau i fod yn weithredol ar draws pob safle, i sicrhau trafnidiaeth brydlon i gleifion. | Rhagfyr 2024<br><br>Rhagfyr 2024<br><br>Ionawr 2025<br><br>Mawrth 2025<br><br>Ionawr 2025<br><br>Chwefror 2025 | Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Prif Swyddog Gweithredu<br><br>Prif Swyddog Gweithredu |
| **Amseroedd aros i wasanaethau gychwyn** | Bydd gwaith pellach i wella'r llif o wybodaeth yn cael sylw drwy'r prosiect 'Ward Ddelfrydol' a fydd yn credu'r amgylchedd gorau posibl i dimau clinigol sy'n gweithio gyda chydweithwyr | Mawrth 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

| Argymhelliad | **Ymateb y rheolwyr**<br>Nodwch yma sylwadau perthnasol ynghylch y camau a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion | **Dyddiad cwblhau**<br>Nodwch pryd y bydd y camau gweithredu arfaethedig yn cael eu cwblhau | **Swyddog cyfrifol (teitl)** |
|---|---|---|---|
| A3 Dylai'r Bwrdd Iechyd weithio gyda'i bartneriaid awdurdod lleol i nodi ffyrdd o ddarparu gwybodaeth gyfredol i staff am amseroedd aros am asesiadau anghenion ar gyfer gwasanaethau cymunedol a'r amser rhagarweiniol i'r gwasanaethau hynny gychwyn. | gofal cymdeithasol i optimeiddio'r broses rhyddhau cleifion. | | |
| | Daethpwyd i gytundeb i ddatblygu ap o'r enw 'Ask Annie: bydd yr ap hwn yn cynnig mynediad at wybodaeth am Lwybrau a Gwasanaethau Rhyddhau Integredig. Mae'r ap hwn ar gamau cynnar ei ddatblygiad. | Ebrill 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Cyfarwyddwr Digidol |
| | Bydd y Bwrdd Rhyddhau Integredig yn cael ei ffurfioli fel is-grŵp Tactegol i'r RPB. Bwriedir a chytunwyd y bydd mwy o dryloywder wrth adrodd yn cael ei ddatblygu. Bydd dangosfwrdd yn cynnig mynediad at amseroedd aros am asesiad cymunedau a gwasanaethau sydd ar gael yn cael ei gynnwys. | Medi 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio/Prif Swyddog Gweithredu |
| | Adolygiad wythnosol o Lwybr Oedi Cyn Darparu Gofal, cleifion dros 100 diwrnod, partneriaid awdurdod lleol sy'n gweithio. | Rhagfyr 2025 | Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio |

Archwilio Cymru
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.